Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL

9 TACHWEDD 2026

TEITL: Adolygiad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

AWDUR: Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Rhoi cipolwg i'r Aelodau ar yr adolygiad o ddogfen gynllunio sylfaenol, Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040, ei oblygiadau ar gyfer gweithio a chynllunio rhanbarthol, a'r cyfleoedd i gymryd rhan yn y broses adolygu.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau ar gyfer yr ymateb sy'n dod i'r amlwg ac ychwanegu at hyn o'u safbwyntiau nhw.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yw'r diwygiad mawr cyntaf o Gymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040 ers ei fabwysiadu yn 2021. Bydd yr adolygiad yn datblygu fframwaith gofodol cenedlaethol newydd i lywio blaenoriaethau cynllunio, seilwaith, tai, datblygu economaidd ac amgylcheddol ledled Cymru hyd at 2050.

4.2 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r broses adolygu, cyfleoedd ymgysylltu, materion allweddol sy'n cael eu hystyried, yr amserlen, a'r goblygiadau i randdeiliaid rhanbarthol a lleol.

Beth sy'n cael ei adolygu?

4.3 Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn eistedd ar frig system gynllunio statudol Cymru ac mae'n darparu'r cyd-destun strategol ar gyfer:

- Cynlluniau Datblygu Strategol
- Cynlluniau Datblygu Lleol
- Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol
- Penderfyniadau buddsoddi cenedlaethol a rhanbarthol
- Penderfyniadau rheoli datblygu

4.4 Mabwysiadwyd y fframwaith presennol, Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040, yn 2021. Bydd y fframwaith diwygiedig yn ymestyn y gorwel cynllunio i 2050 ac yn sefydlu gweledigaeth newydd ar gyfer sut y dylid cynllunio lleoedd, cymunedau, seilwaith ac adnoddau naturiol ledled Cymru. Fframwaith Datblygu Cenedlaethol [HTML] | LLYW.CYMRU

4.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad ar dair elfen:

1. Datganiad Drafft o Gyfranogiad y Cyhoedd

Mae'r ddogfen hon yn nodi:

- Sut y bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau'n digwydd
- Camau'r ymgynghoriad
- Gofynion gweithdrefnol
- Rhaglen arfaethedig a'r amserlen ar gyfer paratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol diwygiedig

2. Cynllun Ymgysylltu Cenedlaethol Drafft

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu:

- Sut y bydd sgwrs genedlaethol ar ddyfodol Cymru yn cael ei chynnal
- Themâu allweddol a chwestiynau i'w trafod
- Dulliau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a sefydliadau

3. Galwad am Dystiolaeth

Gwahoddir rhanddeiliaid i gyflwyno:

- Tystiolaeth strategol
- Data ac ymchwil
- Cyfleoedd datblygu
- Blaenoriaethau seilwaith
- Cynigion polisi
- Heriau lleol a rhanbarthol

4.6 Mae hwn yn gyfle sylweddol i ddylanwadu ar y fframwaith cyn i'r drafftio ddechrau. Mae'r adolygiad ar gam cynnar a gall mewnbwn rhanddeiliaid helpu i lunio cwmpas a chynnwys y fframwaith yn y dyfodol. Er bod yr ymgynghoriad cychwynnol hwn yn dod i ben ar 20 Tachwedd 2026, bydd cyfleoedd pellach i gyflwyno tystiolaeth i gefnogi materion rhanbarthol a lleol sy'n effeithio ar Ogledd Cymru, ac mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig gynrychiolaeth ar Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol y Sector Cyhoeddus, sydd â'r rôl o olrhain cynnydd yr adolygiad.

4.7 Bydd yn ddefnyddiol i Aelodau ystyried cyn y cyfarfod unrhyw fater y maent yn teimlo sydd o arwyddocâd rhanbarthol y dylai Llywodraeth Cymru ei ystyried i'w gynnwys neu gyfeirio ato yn yr adolygiad o'r Cynllun Cenedlaethol. Bydd y CBC yn paratoi ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad drwy'r Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol, a bydd hyn yn cael ei rannu'n ddigidol gyda'r Aelodau ar gyfer sylwadau gan nad yw'r dyddiad cau ar 20 Tachwedd yn cyd-fynd â chyfarfod pellach yr Is-bwyllgor. Byddem yn gwerthfawrogi adborth yr aelodau yn y cyfarfod ar y 9fed ac mewn ymateb i rannu'r ymateb drafft i helpu i lunio'r ymateb fydd yn cael ei anfon yn ôl at Lywodraeth Cymru.

4.8 Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar y meysydd a ganlyn:

- Dyfodol Cymru hyd at 2050
- Beth sy'n gwneud lleoedd a chymunedau llwyddiannus
- Y Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol
- Blaenoriaethau economaidd rhanbarthol – twf a ffyniant economaidd
- Yr angen am gartrefi a thai - gofynion tai

- Twf a ffyniant economaidd - safleoedd cyflogaeth strategol
- Anghenion trafnidiaeth a chysylltedd digidol
- Cyfleoedd ynni adnewyddadwy
- Heriau gwytnwch hinsawdd
- Gofynion buddsoddi mewn seilwaith

4.9 Mae'r rhestr uchod hefyd yn cynrychioli'r math o faterion strategol y bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn eu hystyried ac mae pryder, wrth i'r cynllun cenedlaethol ddod i'r amlwg ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Strategol, ac ar amserlen debyg, y gall dyblygu neu orgyffwrdd o rolau ddod i'r amlwg, oni bai bod Llywodraeth Cymru yn glir iawn ar y dechrau i ddiffinio'r gwahaniaethau a'r cwmpas polisi priodol rhwng y cynllun cenedlaethol, Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Mae hwn yn gam cyntaf hanfodol er mwyn egluro beth mae pob cynllun yn ei wneud a sut maen nhw'n ategu ei gilydd yn hytrach na gorgyffwrdd.

Materion rhanbarthol i'r Cynllun Cenedlaethol eu hystyried

4.10 Wrth feddwl am faterion rhanbarthol y gellid cyfeirio atynt mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gallai rhestr gychwynnol gynnwys:

- Beth yw'r weledigaeth genedlaethol ac is-ranbarthol ar gyfer Cymru erbyn 2050?
- Sut y gellir darparu a chynnal twf economaidd a lles hirdymor hyd at 2050 o ystyried bod y rhaglenni presennol a ariennir gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn dod i ben yn 2036 a bod Cynlluniau Twf Rhanbarthol wedi'u bwriadu i fod yn gynlluniau 10 mlynedd yn unig;
- Yr angen i adrannau eraill Llywodraeth Cymru greu strategaethau cenedlaethol ystyrlon sy'n darparu arweiniad ystyrlon ac yn canolbwyntio ar gyflawni materion megis Seilwaith Ynni Cenedlaethol (e.e. niwclear), Seilwaith Digidol, galluogi gwelliannau i gynhyrchu a chyflenwi pŵer, y gellir eu hymgorffori yn y Cynllun Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Strategol;
- Ffocws ar ariannu a chyflawni seilwaith trafnidiaeth mawr ar raddfa fwy nag a ariennir neu y gellir ei gyflawni ar hyn o bryd drwy'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a phrosiectau a ariennir gan Grant (e.e. croesfannau pontydd mawr, ffyrdd osgoi, ffyrdd lliniaru trefol, gorsafoedd rheilffordd newydd)
- Ffordd gadarn a chyson o asesu effeithiau a manteision twf a datblygiad ar y Gymraeg a diwylliant Cymru, gan gynnwys cydnabod hunaniaeth ranbarthol;
- Mwy o ffocws ar ddarparu cyfraddau uwch o dai fforddiadwy sy'n rhoi cyd-destun lleol i gadw talent ifanc yn yr ardaloedd y gwnaethon nhw dyfu i fyny ynddynt, cael mynediad at swyddi o safon gerllaw, yn ogystal â diwallu ystod ehangach o anghenion nag sy'n cael ei ddarparu ar eu cyfer ar hyn o bryd;
- Sut i ddarparu ffocws ar ardaloedd gwledig Cymru sy'n darparu ymyriadau polisi cadarnhaol drwy Strategaeth Datblygu Gwledig ac sy'n mynd i'r afael o ddifrif â materion tai gwledig, cyflogaeth a menter wledig, cadw poblogaeth, hygyrchedd, addasu i'r hinsawdd, gwytnwch llifogydd, cynnal cymunedau cynaliadwy, a buddsoddi ym myd natur;
- Yr angen brys i gymryd agwedd fwy cytbwys a phragmatig at effaith ac adferiad natur mewn perthynas â thwf a buddsoddiad, er mwyn caniatáu i Gymru elwa yn llawn o gyfleoedd buddsoddi sylweddol sydd dan fygythiad ar hyn o bryd yn sgil ffocws anghymesur ar 'effeithiau' natur hyd yn oed pan fo'r rhain yn anodd eu mesur neu eu meintioli;
- Ffocws ar ddatblygu cynllun buddsoddi seilwaith cenedlaethol a rhanbarthol, wedi'i gydlynu mewn cydweithrediad â'r darparwyr seilwaith allweddol, gan ganolbwyntio blaenoriaethau buddsoddi presennol ac yn y dyfodol o amgylch cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer twf, buddsoddiad, a datblygu cymunedol cynaliadwy.

4.11 Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o gwbl, a byddwn yn parhau i weithio arni yn y cyfnod cyn dyddiad cau'r ymgynghoriad. Gwahoddir aelodau i roi eu barn a'u hadborth ar yr uchod, yn ogystal â chodi materion pellach y maent yn teimlo sydd yr un mor berthnasol i'r ymateb i'r ymgynghoriad sy'n cael ei baratoi gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Amserlen ar gyfer yr Adolygiad

4.12 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio amserlen ddangosol eang ar gyfer y broses adolygu fel a ganlyn:

Carreg Filltir	**Amseru**
Ymgynghoriad a Galwad am Dystiolaeth yn Agor	Awst 2026
Ymgynghoriad yn Cau	20 Tachwedd 2026
Sgwrs Genedlaethol a Chasglu Tystiolaeth	2026-2027
Datblygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Diwygiedig Drafft	2027-2029
Ymgynghoriad ac Archwiliad Ffurfiol	2028-2029
Cyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Diwygiedig	Gaeaf 2029/30

4.13 Nid diweddariad polisi yn unig yw'r adolygiad o Gymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040. Mae'n gyfle unwaith mewn degawd i lunio strategaeth ofodol hirdymor, blaenoriaethau buddsoddi a fframwaith datblygu Cymru hyd at 2050. Bydd ymgysylltiad cynnar gan randdeiliaid rhanbarthol a lleol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod polisi cynllunio cenedlaethol yn y dyfodol yn adlewyrchu anghenion ac uchelgeisiau Gogledd Cymru a'i gymunedau.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol ynghlwm wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Lywodraeth Cymru.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Nid oes gofyniad statudol i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ond mae'n gyfle clir i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ddylanwadu ar yr adolygiad o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yn enwedig mewn perthynas â materion sy'n cael eu mewnforio i Ranbarth Gogledd Cymru, yn ogystal ag egluro sut y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Strategol, yn hytrach na gorgyffwrdd ag o, ac i'r gwrthwyneb.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Dim

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Nid oes gennyf unrhyw bryderon sylweddol o ran y gyfraith na llywodraethu."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad ariannol, ac nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol."